Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Powys Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

"Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a gefnogir gan Gyngor Sir Powys".

Powys

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

"This project is funded by the UK Government through the UK Shared Prosperity Fund, supported by Powys County Council".

# SGYRSIAU CYMUNEDOL

**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)**

Ariannwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU
trwy Y Gronfa Ffyniant Gyffredin,
gyda chefnogaeth Cyngor Sir Powys

**Medi 2026**

# O wrando i weithredu: beth gyflawnodd Sgyrsiau Cymunedol

Nodwyd **80 o flaenoriaethau gweithredu lleol** i lywio gweithredu a datblygu yn y dyfodol.

Cydgynhyrchwyd, datblygwyd a chefnogwyd **18 o brosiectau cymunedol ledled Powys.**

Datblygodd **32 o bobl** sgiliau newydd a magu hyder drwy hyfforddiant perthnasol.

Cefnogwyd **35 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd** i helpu pobl i rannu eu hamser, eu sgiliau a'u profiad.

**Ond nid nifer y gweithgareddau a gyflawnwyd oedd y newid mwyaf yn unig. Y newid mwyaf oedd y cysylltiadau a grëwyd rhwng pobl a mudiadau, yr hyder gafodd ei feithrin o fewn cymunedau, a'r dystiolaeth sydd bellach ar gael i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.**

# Cyflawnwyd hyn gan Sgyrsiau Cymunedol drwy:

- **1,232 o bobl** yn rhannu eu barn drwy arolwg ar draws Powys gyfan**.**
- Cyrhaeddwyd **23,441 o bobl** drwy'r prosiect ehangach.
- Hyrwyddodd **18 o ddigwyddiadau sioe deithiol** y cymorth sydd ar gael i bobl ym Mhowys, a daeth trigolion, grwpiau cymunedol, cynghorwyr a gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i rannu eu barn.

## 1. Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd hanes y prosiect Sgyrsiau Cymunedol, a gyflwynwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO).

Mae'n dwyn ynghyd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym, yr hyn a ddewisodd cymunedau ei wneud, yr hyn a newidiodd, a'r hyn y mae'r prosiect wedi'i ddysgu i ni am gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer trigolion, grwpiau cymunedol, mudiadau lleol, cynghorau, gwasanaethau cyhoeddus a chyllidwyr. Bwriedir iddo hefyd fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn i gymunedau sydd am gynnal eu sgwrs lleol eu hunain ynghylch cynllunio.

Nid yw'r adroddiad yn awgrymu y gall cymunedau ddatrys pob her ar eu pen eu hunain. Mae rhai materion yn gofyn am weithredu gan gyrff cyhoeddus a phartneriaid eraill. Un o wersi allweddol y prosiect hwn yw deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn y gall cymuned weithredu arno nawr, yr hyn y gall ei ddylanwadu ar y cyd ag eraill, a'r hyn sydd angen gweithredu ehangach ar lefel system.

Mae sylfaen y dystiolaeth yn sylweddol: derbyniwyd 1,232 o ymatebion i'r arolwg, cynhaliwyd ymgysylltiad ar draws 18 ardal (yn seiliedig ar y 18 prif dref ym Mhowys a'r ardaloedd o'u cwmpas), mynychodd 574 o bobl y Sioeau Teithiol/Sgyrsiau Cymunedol, cymerodd 510 o bobl ran mewn grwpiau ffocws, a chyflawnwyd 18 o brosiectau cymunedol ymarferol.

## 2. Y prosiect yn gryno

Ariannwyd Sgyrsiau Cymunedol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Powys. Roedd ei ddiben yn syml: gwrando ar bobl ynghylch yr hyn sy'n bwysig yn y mannau lle maent yn byw, dod â phobl ynghyd i archwilio'r blaenoriaethau hynny, a chefnogi cymunedau i droi rhai o'u syniadau yn gamau gweithredu ymarferol.

| Cam | Beth ddigwyddodd | Cyrhaeddiad / canlyniad |
|---|---|---|
| 1. Gwrando | Arolwg sir gyfan 'Llunio dyfodol cymunedau Powys', a hyrwyddwyd ar-lein ac wyneb yn wyneb. | 1,232 arolwg wedi'u cwblhau |
| 2. Siarad | Sioeau teithiol a Sgyrsiau Cymunedol wedi'u hwyluso ledled Powys. | 18 ardal<br>; 574 o fynychwyr |
| 3. Darganfod | Fe wnaeth grwpiau ffocws dilynol helpu cymunedau i brofi eu blaenoriaethau a chytuno ar yr hyn y gellid ei wneud yn lleol. | 510 o fynychwyr |
| 4. Gweithred | Datblygodd pob ardal brosiect ymarferol, gyda chymorth ac adnodd ariannol bach. | Datblygwyd a chyflawnwyd 18 prosiect |

Cyrhaeddodd y prosiect gyfanswm o 23,441 o bobl. Cefnogodd hefyd 32 o bobl drwy hyfforddiant perthnasol, 42 o fudiadau trwy gymorth anariannol, 35 o gyfleoedd gwirfoddoli, 33 o fudiadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhannu gwybodaeth, a 18 o rolau gwirfoddoli cysylltiedig â'r prosiect.

### 3. Beth ddywedodd pobl wrthym

Y neges gryfaf o arolwg ‘Llunio dyfodol cymunedau Powys’ oedd nid bod pobl yn anfodlon â’r lleoedd lle maent yn byw. I’r gwrthwyneb: ar y cyfan mae pobl yn teimlo’n gadarnhaol am fywyd yn eu cymunedau ar hyn o bryd. Y pryder yw a fydd y pethau sy’n gwneud i gymunedau weithio heddiw dal yno yfory.

Mae pobl yn gwerthfawrogi mynediad at natur, ymdeimlad o gymuned, a digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau lleol. Maent hefyd yn gwerthfawrogi’r pethau llai gweladwy y mae gwasanaethau yn eu galluogi: annibyniaeth, cysylltiadau cymdeithasol, ymdeimlad o berthyn, a chyfleoedd ar draws y cenedlaethau.

**Mae’r materion hyn yn gysylltiedig â'i gilydd.**

- Trafnidiaeth a chysylltedd: yn cael eu cysylltu dro ar ôl tro â mynediad at ofal iechyd, gwaith, addysg, siopau a gweithgareddau cymdeithasol.
- Cysylltiadau cymdeithasol: mae pobl yn poeni am unigrwydd, colli mannau a rennir, a gwanhau'r cysylltiadau sy'n uno cymunedau.
- Fforddiadwyedd: mae costau tai a chostau byw yn effeithio ar bwy sy’n gallu aros mewn cymuned ac a all gwasanaethau ac amwynderau lleol barhau i fod yn hyfyw.
- Plant a phobl ifanc: mae mynediad at ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a chyfleoedd yn cael eu hystyried yn arwyddion a yw cymuned yn medru cefnogi cenedlaethau’r dyfodol.
- Gwneud penderfyniadau: mae pobl eisiau i anghenion lleol gael eu deall, i benderfyniadau fod yn fwy gweladwy, ac i weithredu deimlo’n amserol ac yn ystyrlon.

Dangosodd yr arolwg hefyd fod oedran, rhywedd a lleoliad yn effeithio ar sut mae pobl yn profi’r materion hyn. Yn aml, mae’r pryderon sylfaenol yn rhai a rennir, ond nid yw eu heffaith yr un fath i bawb.

## 4. Y rhifau tu ôl i'r stori

| Mesur | Targed | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| Digwyddiadau lleol / gweithgareddau a gefnogwyd | 40 | 40 |
| Pobl a gyrhaeddwyd | 1,000 | 23,441 |
| Pobl a gefnogwyd trwy hyfforddiant perthnasol | 25 | 32 |
| Mudiadau sy'n derbyn cefnogaeth an-ariannol | 25 | 42 |
| Cyfleoedd gwirfoddoli a gefnogir | 25 | 35 |
| Mudiadau a gymerodd ran mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth. | 10 | 33 |
| Rolau gwirfoddoli cysylltiedig â'r prosiect a grëwyd. | 14 | 18 |

Cyflawnwyd pob targed prosiect, gyda pherfformiad arbennig o gryf o ran cyrhaeddiad ac ymgysylltu lleol, gan adeiladu ar berthnasoedd sefydledig PAVO a'i safle dibynadwy o fewn cymunedau. Mae'r ffigur o 23,441 yn cynnwys y bobl a gyrhaeddwyd drwy'r prosiect, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai a fynychodd

weithgareddau ymgysylltu. Felly, ni ddylid dehongli’r ffigur hwn fel pe bai’n cynrychioli 23,441 o gyfranogwyr unigryw.

**5. Beth ganfu arolwg ‘Llunio dyfodol cymunedau Powys’**

Cynhyrchodd yr arolwg sylfaen dystiolaeth helaeth iawn. Cwblhaodd 1,232 o bobl yr arolwg: 24 yn Gymraeg a 1,208 yn Saesneg. Cynhaliwyd y dadansoddiad llawn gan Barry Farrell, Seicolegydd Sefydliadol, a roddodd ei amser yn wirfoddol, ac mae ar gael mewn adroddiad manwl ar wahân.

| Canfyddiad | Tystiolaeth o’r arolwg |
|---|---|
| Y pryder mwyaf parhaus. | • Trafnidiaeth a chysylltedd. |
| Asedau cymunedol cryf | • Ymdeimlad o gymuned<br>• Mynediad i natur<br>• Digwyddiadau a llefydd i gwrdd<br>• Gwasanaethau lleol |
| Pryder sylfaenol. | • A fydd modd cynnal y gwasanaethau, y cyfleusterau a’r cyfleoedd y mae pobl yn eu gwerthfawrogi. |

Yn amlwg, gall gweithredu cymunedol helpu i fynd i’r afael â rhai bylchau, ond ni all gymryd lle darpariaeth statudol iechyd a gofal cymdeithasol.

**Darllennwch yr adroddiad llawn yma:**
[pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/](pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/)

## 6. Beth ddywedodd cymunedau'n lleol

Rhoddodd y Sioeau Teithiol gyfle inni brofi canfyddiadau'r arolwg sir gyfan yn erbyn profiadau'r mynychwyr eu hunain mewn grwpiau ffocws Sgyrsiau Cymunedol. Ar draws 18 o ddigwyddiadau, cymerodd 574 o bobl ran. Daeth yr un themâu i'r amlwg dro ar ôl tro, ond disgrifiodd pob ardal hwy yn ei ffordd ei hun.

| Ardal | Prif flaenoriaethau a nodwyd yn ystod y Sgyrsiau Cymunedol. |
|---|---|
| **Aberhonddu** | • Cadw gwasanaethau hanfodol yn lleol<br>• Gwneud dai weithio i bobl lleol<br>• Cefnogi pobl ifanc<br>• Gwell cyfathrebu<br>• Mudiadau cymunedol cryfach |
| **Llanfair-ym-Muallt** | • Gwell gwybodaeth a chyfathrebu<br>• Gweithio gyda'n gilydd ar draws y gymuned<br>• Cefogi pobl ifanc<br>• Diogelu gwasanaethau lleol a gwella mynediad<br>• Adeiladu balchder, cyfrangoiad a chapasiti cymunedol |
| **Crughywel** | • Cefnogi pobl ifanc a'u dyfodol<br>• Gwella trafnidiaeth a chysylltiadau lleol<br>• Cryfhau gwirfoddoli a mudiadau cymunedol<br>• Diogelu gwasanaethau lleol a bywyd cymunedol |
| **Y Gelli** | • Gwell cyfathrebu a gwybodaeth<br>• Creu cyfleoedd i bobl ifanc<br>• Gwneud gwell defnydd o adeiladau a gofodau cymunedol<br>• Gwella mynediad at wasanaethau a thrafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| **Tref-y-Clawdd** | • Cefnogi pobl ifanc<br>• Gwella cyfathrebu a chadw pobl mewn cysylltiad<br>• Diogelu a gwneud gwell defnydd o ofodau cymunedol a gwasanaethau lleol<br>• Cryfhau gwirfoddoli a gallu cymunedol<br>• Gwneud y mwyaf o dwristiaeth, natur a diwylliant Tref-y-Clawdd |
| **Llandrindod** | • Cefnogi pobl ifanc<br>• Gwell cyfathrebu a chysylltiadau<br>• Gwella trafnidiaeth a mynediad<br>• Diogelu gwasanaethau lleol, gofodau a busnesau<br>• Gwerthfawrogi gwirfoddolwyr ac adeiladu capasiti cymunedol |
| **Llanfair Caereinion** | • Gwell trafnidiaeth a mynediad<br>• Gwell cyfathrebu<br>• Diogelu gofodau cymunedol<br>• Cadw'r gymuned mewn cysylltiad |
| **Llanfyllin** | • Cryfhau gwirfoddoli ac ymwneud cymunedol<br>• Gwell cyfathrebu a chysylltiadau cymunedol cryfach<br>• Cefnogi pobl ifanc a dyfodol y gymuned<br>• Gwell trafnidiaeth a mynediad |
| **Llanidloes** | • Gwell gwybodaeth a chyfathrebu<br>• Trafnidiaeth gymunedol gynaliadwy<br>• Cefnogi a chydlynu gwirfoddolwyr |
| **Llanwrtyd** | • Cefnogi pobl ifanc<br>• Gwell cyfathrebu a chydweithio<br>• Gwell trafnidiaeth a mynediad<br>• Diogelu cysylltiadau cymunedol a gwasanaethau lleol |
| **Machynlleth** | • Gwell gwybodaeth a chyfathrebu |

| | |
|---|---|
| | • Rhoi mwy o lais i bobl<br>• Cefnogi capasiti a chysylltiadau cymunedol<br>• Gwell trafnidiaeth a mynediad i wasanaethau |
| **Trefaldwyn** | • Cenfogi pobl ifanc a theuluoedd<br>• Cadw'r gymuned yn gysylltiedig ac yn wybodus.<br>• Cefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr<br>• Gwell trafnidaeth, teithio a mynediad |
| **Y Drenewydd** | • Gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth<br>• Dod â phobl ynghyd ar draws y cenedlaethau<br>• Creu gofodau cymunedol mwy cynhwysol a chyfleoedd<br>• Cefnogi gwirfoddolwyr a mudiadau cymunedol<br>• Cefnogi pobl ifanc i gael llais a dyfodol yn Y Drenewydd<br>• Cefnogi canol y dref a'r economi lleol |
| **Llanandras** | • Cefnogi pobl ifanc<br>• Cryfhau gwasanaethau lleol a chysylltiadau<br>• Adeiladu cymuned wirfoddoli gryfach<br>• Gwella trafnidaeth, cyfathrebu a mynediad |
| **Rhaeadr** | • Gwell cyfathrebu a gwybodaeth gymunedol<br>• Cefnogi pobl ifanc a'i dyfodol<br>• Cadw Rhaeadr yn gysylltiedig ac yn hygyrch<br>• Adeiladu cymuned gryfach a chymuned fwy cynaliadwy |
| **Talgarth** | • Dod â phobl a mudiadau ynghyd<br>• Cadw pobl ifanc Talgarth yn gysylltiedig â'u cymuned<br>• Gwell cyfathrebu ar draws y gymuned<br>• Archwilio ynni lleol<br>• Sicrhau bod tai yn diwallu anghenion pobl leol |
| **Y Trallwng** | • Gwell cyfathrebu a chysylltu<br>• Gwneud gwirfoddoli'n haws<br>• Cadw'r Trallwng a chymunedau gwledig mewn cysylltiad |

| | |
|---|---|
| | ● Cefnogi canol tref a chymuned leol gryfach<br>● Cefnogi pobl, pobl ifanc a llesiant cymunedol |
| **Ystradgynlais** | ● Cadw gwasanaethau iechyd a gofal yn lleol<br>● Gwell cyfathrebu a gwybodaeth sy'n fwy lleol<br>● Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc<br>● Diogelu gofodau cymunedol a mwynderau lleol<br>● Tai fforddiadwy, seilwaith a chymunedau cryfach |

**7. O flaenoriaethau i weithredu**

Y grwpiau ffocws dilynol oedd y man lle symudodd y gwaith o "beth sy'n bwysig?" i "beth allwn ni ei wneud?". Roedd grwpiau llai a mwy o amser yn galluogi pobl i fireinio blaenoriaethau, meithrin perthnasoedd a gwahaniaethu rhwng gweithredu lleol a materion oedd angen cefnogaeth ehangach.

**8. Y 18 prosiect cymunedol**

Datblygodd pob ardal leol brosiect ymarferol. Roedd y prosiectau'n fwriadol wahanol i'w gilydd gan eu bod wedi'u cynllunio o amgylch blaenoriaethau lleol yn hytrach na chael eu gorfodi i ddilyn un model cyffredin.

| Cymuned | Prosiect | Mudiad arweiniol |
|---|---|---|
| **Aberhonddu** | Baneri'r Bannau – baneri sy'n cynrychioli'r gymuned leol | 'The Muse Agency CIC' |
| **Llanfair-ym-Muallt** | Peilot caffi ieuenctid / gofod diogel. | Play Radnor |
| **Crughywel** | Ymgysylltu â phobl ifanca | Peak |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gelli** | Hysbysfyrddau yn Llyfrgell Y Gelli | Llyfrgell Y Gelli |
| **Tref-y- Clawdd** | Ymgysylltu â phobl ifanc i ddeall anghenion lleol. | Canolfan Gymunedol Tref-y-Clawdd a’r Cyffiniau |
| **Llandrindod** | Sesiynau llesiant  a gwaith celf cymunedol | Celf o Gwmpas cc Arlais |
| **Llanfair Caereinion** | Canllaw tref a chyfleusterau ystafell ieuenctid. | Cyngor Cymuned Llanfair Caereinion |
| **Llanfyllin** | Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth am wirfoddoli | Arts Connection |
| **Llanidloes** | Cylchlythyr lleol | Cyngor Tref Llanidloes |
| **Llanwrtyd** | Darpariaeth ieuenctid i fannau agored pobl ifanc 11–16 oed. | Pwyllgor Caeau Dolwen |
| **Machynlleth** | Dyddiadur ar lein dwyieithog o wasanaethau a digwyddiadau | Hwb Cymunedol Taj Mahal |
| **Trefaldwyn** | Adnodd a chymorth gofod ieuenctid ar gyfer Criwr Tref Trefaldwyn. | Guiding in Montgomery |
| **Y Drenewydd** | Cylchlythyr sy’n ymestyn i’r pentrefi cyfagos | Open Newtown |

| | | |
|---|---|---|
| **Llanandras** | Dathlu Ieuenctid | Grwp Datblygu Cymunedol Llanandras a'r Ardal |
| **Rhaeadr** | Cylchlythyr ac arwyddion parcio | Cyngor Tref Rhaeadr |
| **Talgarth** | Gweithgareddau ymgysylltu lleol i arddangos yr hyn sydd ar gael. | Grwp Adfywio Talgarth a'r Cyffiniau |
| **Y Trallwng** | Llyfryn Iechyd a Lles sy'n arddangos gwasanaethau lleol. | Penwythnos 1940au a Hafan Gymunedol Y Trallwng |
| **Ystradgynlais** | Hysbysfyrddau mewn lleoliadau allweddol | Cyngor Tref Ystradgynlais |

**Darllennwch yr adroddiadau ardal mannwl yma:**
[pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/](pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/)

## 9. Sut mae hyn yn edrych yn ymarferol

Enghreifftiau o'r prosiectau cymunedol a ddatblygwyd drwy'r rhaglen.

### Tref-y-clawdd: dechrau gyda phobl ifanc, yna adeiladu ar sail yr hyn maen nhw'n ei ddweud

Defnyddiodd Tref-y-clawdd ei brosiect i wrando'n uniongyrchol ar bobl ifanc rhwng 12 a 25 oed. Defnyddiodd gweithiwr ieuenctid arolwg ac ymgysylltu allgymorth mewn parciau, ar fysiau ac mewn digwyddiadau cymunedol i gasglu barn pobl ifanc. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys clybiau lleol, busnesau, yr heddlu, y llyfrgell a mudiadau eraill. Cafodd yr arolwg 28 o ymatebion a siaradodd y tîm â mwy na 40 o bobl ifanc.

Cynhaliwyd dau weithgaredd yn ystod hanner tymor, a daeth fforwm terfynol â 22 o bobl ifanc 12–15 oed ynghyd, ochr yn ochr â sesiwn lai ar gyfer pobl ifanc 16–25 oed.

Roedd y neges yn glir: roedd pobl ifanc eisiau lle diogel i gyfarfod a chymdeithasu. Ymhlith y gweithgareddau a awgrymwyd roedd clwb llyfrau, cerddoriaeth, chwaraeon, y celfyddydau, coginio, drama a chlwb ieuenctid rheolaiddllRoedd y camau nesaf a nodwyd yn lleol yn cynnwys penodi arweinydd ieuenctid gwirfoddol, sefydlu pwyllgor ieuenctid gyda chynrychiolaeth gan bobl ifanc, adeiladu tîm ehangach o wirfoddolwyr, dechrau gweithgareddau cost isel, a defnyddio'r rhestr gyswllt i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ifanc.

**Talgarth: mapio'r hyn sydd eisoes yn bodoli cyn cynllunio rhywbeth newydd**

Daeth Connecting Talgarth â thua 48 o bobl ynghyd, yn cynrychioli 31 o fudiadau, grwpiau a diddordebau cymunedol. Nododd y prosiect fwy na 70 o grwpiau, mudiadau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at fywyd lleol. Nid yn unig yn y digwyddiad ei hun yr oedd y gwerth: gwnaeth pobl gysylltiadau newydd, cryfhau perthnasoedd presennol a datblygu darlun cliriach o asedau'r gymuned.

Y wers i gymunedau eraill yw: cyn creu gwasanaeth newydd, darganfyddwch beth sy'n digwydd yn barod, pwy sy'n rhan ohono, lle mae'r bylchau gwirioneddol, a lle y gallai mudiadau gydweithio.

**Llandrindod: gall prosiectau bach greu cysylltiadau parhaol**

Cyfunodd y prosiect waith celf cymunedol â gweithgareddau llesiant. Datblygwyd murlun cymunedol gyda busnesau lleol a gwirfoddolwyr ifanc, tra roedd y gweithdai llesiant yn cynnwys garddio a barddoniaeth. Penderfynodd pedwar o gyfranogwyr y gweithdai garddio barhau fel grŵp hunanreoledig. Mynychodd pum person weithdy barddoniaeth, a mynegodd y cyfranogwyr ddiddordeb mewn parhau â'r grŵp.

**10.Yr hyn a newidiodd y tu hwnt i'r prosiectau**

Ni ellir mesur na chyfrif y canlyniadau pwysicaf bob amser. Datblygodd perthnasoedd rhwng pobl nad oeddent wedi gweithio gyda'i gilydd o'r blaen. Fe wnaethom hefyd gysylltu cymunedau a oedd yn gweithio ar syniadau tebyg fel y gallent rannu'r hyn a ddysgwyd yn hytrach na dechrau o'r newydd. Roedd cymunedau'n gallu cymharu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Enillodd unigolion sgiliau, hyder a phrofiad a all gefnogi gweithgarwch yn y dyfodol.

Mae hyn yn bwysig i gyllidwyr yn ogystal â chymunedau: creodd buddsoddiad cymharol fach mewn dod â phobl a mudiadau at ei gilydd, hwyluso, a chymorth ymarferol a roddodd lwyfan ar gyfer arweinyddiaeth leol, cydweithio a chyfleoedd ariannu i'r dyfodol.

**11. Dull syml o ymgysylltu y gall cymunedau a phartneriaid ei ddefnyddio**

Mae prosiect Sgyrsiau Cymunedol yn awgrymu cylch ymarferol y gall cymunedau a phartneriaid ei addasu i'w hanghenion eu hunain. Nid model rhagnodol mohono; yn hytrach, mae'n set o gwestiynau sydd wedi'u cynllunio i helpu cymuned i symud o sgwrsio at weithredu.

- **Dechreuwch gyda'r cryfderau**: Beth sydd eisoes yn gweithio'n dda? Pwy sydd eisoes yn cyfrannu? Pa adeiladau, grwpiau, sgiliau, rhwydweithiau ac asedau naturiol sydd gennym?

- **Gwrandewch yn eang**: Gofynnwch i drigolion beth sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys pobl nad ydynt fel arfer yn mynychu cyfarfodydd cymunedol. Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon, sgyrsiau a digwyddiadau cymunedol, gan roi cyfleoedd i bobl rannu eu barn ar-lein ac ar bapur.

- **Canfyddwch y patrymau**: Grwpiwch yr hyn a glywch yn nifer fach o themâu. Gwiriwch sut mae gwahanol grwpiau'n profi'r un mater.

- **Gwahanwch lefelau gweithredu**: Ar gyfer pob mater, gofynnwch: A allwn weithredu'n lleol? A allwn ddylanwadu ar y mater drwy bartneriaethau? A oes angen penderfyniad neu fuddsoddiad gan gorff cyhoeddus?
- **Dewiswch nifer fach o flaenoriaethau**: Peidiwch â cheisio datrys popeth. Dewiswch flaenoriaethau lle mae angen clir, pobl sy'n barod i helpu, a cham cyntaf realistig.
- **Trowch flaenoriaethau'n brosiect bach**: Diffiniwch y canlyniad disgwyliedig, pwy fydd yn elwa, pwy fydd yn arwain, pa adnoddau sydd eu hangen, beth all ddigwydd yn gyflym, a beth allai fod angen cyllid tymor hwy.
- **Cadwch bobl yn rhan o'r broses**: Dywedwch wrth bobl beth a glywsoch, beth rydych yn ei wneud a beth sydd wedi newid. Gwnewch hi'n hawdd i bobl newydd ymuno.
- **Dysgwch ac addaswch**: Adolygwch beth ddigwyddodd. Cadwch yr hyn sy'n gweithio, newidiwch yr hyn nad yw'n gweithio, a defnyddiwch y dystiolaeth i gryfhau'r cais nesaf am gyllid neu'r sgwrs nesaf am bartneriaeth.

## 12. Yr hyn na ddylai cymunedau orfod eu datrys ar eu pen eu hunain

Canfu'r prosiect faterion clir sydd y tu hwnt i allu menter leol fach i'w datrys. Mae darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, deintyddiaeth, mynediad at ofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a heriau trafnidiaeth yn gofyn am weithredu gan bartneriaid statudol a mudiadau eraill. Gall gweithredu cymunedol ategu at y systemau hyn, ond ni ddylid eu gweld fel rhywbeth sy'n eu disodli.

Felly, mae proses gynllunio iach yn cynhyrchu dau allbwn: cynllun gweithredu lleol a llwybr tystiolaeth clir sy'n dangos pa faterion sydd angen eu datblygu ymhellach ar lefel ehangach.

**Darllennwch yr adroddiad llawn yma:**
[pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/](pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/)

## 13. Argymhellion ar gyfer y dyfodol

Nododd dadansoddiad arolwg ***'Llunio dyfodol cymunedau Powys'*** saith blaenoriaeth. Dyma nhw:

● Dylunio gwasanaethau yn unol â'r ffordd y mae pobl yn byw ac yn eu defnyddio mewn gwahanol leoedd mewn gwirionedd.
● Rhoi trafnidiaeth a chysylltedd wrth wraidd penderfyniadau ynghylch gwasanaethau a mynediad atynt.
● Cryfhau iechyd a llesiant drwy ganolbwyntio ar atal a'r amodau sy'n helpu pobl i aros yn iach o ddydd i ddydd.
● Trin adeiladau cymunedol, mannau a rennir ac asedau lleol eraill fel rhan o seilwaith cymunedau cydnerth.
● Mynd i'r afael â phwysau fforddiadwyedd, gan gynnwys tai a chostau byw, gan fod y rhain yn dylanwadu ar allu cymunedau i gadw pobl, gwasanaethau a busnesau.
● Cydnabod y gall oedran a rhyw newid yr hyn sydd ei angen ar bobl gan wasanaethau a bywyd cymunedol, a chynllunio yn unol â hynny.
● Gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn fwy gweladwy, ymatebol a chysylltiedig â'r hyn y mae cymunedau wedi'i ddweud wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

### Argymhellion ehangach PAVO

**●Cydnabod y dull ymgysylltu fel dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellir ei ailadrodd mewn ymgynghori ac ymgysylltu ar draws Powys yn y dyfodol.**

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgysylltu â phobl a'u cefnogi i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Dylid ystyried y dull a'r dysgu a gafwyd o'r prosiect wrth gynllunio gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws y sir yn y dyfodol.

- **Defnyddio’r mewnwelediadau a gasglwyd drwy Sgyrsiau Cymunedol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.**

Dylid defnyddio canfyddiadau’r arolwg, a nodir yn *Beth sy’n Bwysig i Bobl ym Mhowys – Dadansoddiad o Arolwg Sgyrsiau Cymunedol*, i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch gwasanaethau a seilwaith ar lefel sirol. Dylid hefyd defnyddio’r mewnwelediadau a gasglwyd drwy Sgyrsiau Cymunedol a’r grwpiau ffocws i lywio penderfyniadau ar lefel leol.

- **Buddsoddi mewn cefnogaeth datblygu cymunedol gynaliadwy a medrus.**

Canfuom fod dulliau a arweinir gan y gymuned yn gweithio orau pan fo gan bobl yr amser, yr hwylustod, y perthnasoedd a’r gefnogaeth ymarferol sydd eu hangen arnynt i droi syniadau yn weithredu. Darparodd perthnasoedd sefydledig PAVO a’i safle dibynadwy o fewn cymunedau ledled Powys sylfaen bwysig ar gyfer y gwaith hwn.

Os yw cymunedau am chwarae rhan fwy yn y gwaith o lunio gwasanaethau ac atebion lleol, bydd buddsoddiad parhaus yn sectorau cymunedol a gwirfoddol Powys yn bwysig er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy’r gwaith hwn a chreu’r amodau sy’n galluogi cymunedau i arwain.

Mae’r dull hwn eisoes yn cael ei ddatblygu ymhellach, gyda PAVO yn ymrwymo cyllid craidd i barhau i gefnogi’r bobl a’r mudiadau sy’n cyflawni gweithgareddau a ddechreuodd drwy Sgyrsiau Cymunedol.

Os yw Cynllun Powys Gynaliadwy am ddod yn realiti, bydd adeiladu capasiti ar gyfer datblygu cymunedol medrus yn hanfodol.

## 14. Dysgu ar gyfer prosiectau'r dyfodol

- Mae ymddiriedaeth yn cymryd amser. Roedd y cyfnod cyflawni o wyth mis yn uchelgeisiol; symudodd cymunedau ar gyflymderau gwahanol ac roedd angen mwy o amser ar rai i feithrin perthnasoedd a chyrraedd cytundeb.

- Mae hwyluso medrus yn bwysig. Mewn rhai lleoedd, roedd hwylusydd niwtral yn helpu pobl i gymryd rhan yn fwy agored. Roedd gwirfoddolwyr yn fwy effeithiol pan oeddent yn cael cefnogaeth i gyfrannu yn hytrach na bod disgwyl iddynt redeg proses ymgysylltu gyfan.
- Mae angen cynllunio cynhwysiant o'r cychwyn cyntaf. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar-lein ac ar bapur, a defnyddiwyd gweithgareddau allgymorth i gyrraedd ystod eang o grwpiau.
- Gall cyfranogiad leihau wrth i'r broses ddod yn fwy manwl. Mae grwpiau llai yn ddefnyddiol ar gyfer cydgynllunio, ond mae angen i brosiectau fabwysiadu dulliau bwriadol o gadw'r gymuned ehangach yn wybodus ac yn rhan o'r gwaith.
- Mae effaith gwirfoddolwyr yn werthfawr ond yn anodd ei mesur. Dylai prosiectau'r dyfodol ganfod ffyrdd syml o gofnodi cyfraniadau heb greu baich gweinyddol diangen i wirfoddolwyr.
- Mae llwyddiannau bach, pendant yn helpu. Gall prosiect ymarferol feithrin hyder, cryfhau perthnasoedd a sefydlu hanes o gyflawni sy'n cefnogi gwaith tymor hwy.

## 15. Yr hyn y gall cyllidwyr a phartneriaid ei ddysgu o hyn

Mae Sgyrsiau Cymunedol yn darparu tystiolaeth y gall buddsoddi mewn gallu cymunedol gynhyrchu allbynnau uniongyrchol yn ogystal â seilwaith tymor hwy ar gyfer gweithredu lleol. Rhagorodd y prosiect yn sylweddol ar ei darged cyrhaeddiad a chefnogodd brosiectau ymarferol ym mhob un o’r 18 ardal leol.

Y cam nesaf yw trosi’r mewnwelediadau hynny yn newid gweladwy. Mae angen i bobl allu gweld bod eu cyfraniad wedi dylanwadu ar benderfyniadau, gwasanaethau, buddsoddiad neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae canfyddiadau’r prosiect yn awgrymu bod angen gwreiddio ymhellach ddull partneriaethol o weithio: cymunedau’n nodi ac yn llywio blaenoriaethau; mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn helpu i ddod â phobl ynghyd ac yn cyfrannu at gyflawni; a chyrff cyhoeddus yn ymateb i’r materion sydd y tu hwnt i gapasiti lleol. Dyma’r sail ar gyfer Powys fwy gwydn a chynaliadwy.

## 16. Casgliad

Dangosodd Sgyrsiau Cymunedol fod pobl yn poeni'n fawr am y mannau lle maent yn byw. Nid gofyn am fwy o wasanaethau yn unig y maent. Maent yn galw am gymunedau sy'n parhau'n gysylltiedig, yn fforddiadwy, yn hygyrch ac yn gallu cefnogi pobl drwy wahanol gyfnodau eu bywydau.

Mae'r prosiect wedi creu darlun manwl o'r hyn sy'n bwysig i bobl ym Mhowys, o'r sir gyfan i ardaloedd a chymunedau unigol. Mae hyn yn darparu adnodd gwerthfawr i fudiadau sy'n gweithio ledled y sir.

Mae'r gweithgarwch ymgysylltu wedi darparu ffordd effeithiol o wrando ar bobl a deall yr hyn sy'n bwysig iddynt. Dylid ystyried y dull a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect wrth gynllunio gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws y sir yn y dyfodol.

Dangosodd y prosiect hefyd beth sy'n bosibl pan roddir amser, llefydd dibynadwy a chefnogaeth ymarferol i bobl. Nododd pobl gryfderau, meithrin cysylltiadau, cytuno ar flaenoriaethau a datblygu atebion lleol. Mae'r 18 prosiect lleol yn dangos sut y gall gweithredu a arweinir gan y gymuned ddechrau gyda chyllid cymharol gymedrol pan fo'r amodau cywir ar gyfer cydweithio ar waith.

Mae llwyddiant y prosiect hefyd wedi'i ategu gan berthnasoedd sefydledig PAVO a'i safle dibynadwy o fewn cymunedau ledled Powys. Helpodd y perthnasoedd hyn i greu'r hyder a oedd yn angenrheidiol i bobl rannu eu profiadau, eu syniadau a'u blaenoriaethau. Mae PAVO wedi ymrwymo cyllid craidd i barhau i gefnogi'r bobl a'r mudiadau sy'n datblygu'r gweithgareddau a ddeilliodd o'r prosiect hwn.

Wrth edrych ymlaen, os disgwylir i gymunedau chwarae rhan fwy yn y gwaith o lunio gwasanaethau ac atebion lleol, bydd angen y cymorth a'r adnoddau cywir arnynt i wneud hynny. Bydd buddsoddiad parhaus yn sectorau cymunedol a gwirfoddol Powys yn bwysig er mwyn adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd drwy'r gwaith hwn.

**Nid diweddglo yw Sgyrsiau Cymunedol. Mae'n sylfaen dystiolaeth ac yn fan cychwyn.** Y cam nesaf yw parhau â'r sgwrs a sicrhau bod yr hyn y mae pobl wedi'i

ddweud wrthym yn cael ei ystyried wrth gynllunio, buddsoddi a gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ledled Powysa

## Gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol

### 1: Adroddiadau lleol

Cynhaliwyd Sgyrsiau Cymunedol ar draws 18 ardal leol, ac mae gan bob ardal ei hadroddiad cryno ei hun.

Mae'r adroddiadau'n darparu rhagor o fanylion am:

- yr hyn a ddywedodd pobl leol wrthym drwy'r arolwg;
- y materion a'r blaenoriaethau a archwiliwyd drwy Sgyrsiau Cymunedol a grwpiau ffocws;
- y blaenoriaethau lleol a nodwyd; a
- y prosiect cymunedol a ddatblygwyd mewn ymateb.

Mae'r adroddiadau hyn yn adnodd defnyddiol i grwpiau cymunedol, cynghorau lleol a phartneriaid. Maent yn darparu tystiolaeth leol a all gefnogi cynllunio, gweithio mewn partneriaeth, datblygu gwasanaethau a cheisiadau am gyllid.

**Gweler y 18 adroddiad lleol yma:**
**pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/**

### 2. Dadansoddiad o'r arolwg

### Yr Hyn Sy'n Bwysig i Bobl ym Mhowys – Dadansoddiad o'r Arolwg

Mae'r dadansoddiad llawn o'r arolwg, Yr Hyn *Sy'n Bwysig i Bobl ym Mhowys*, yn darparu archwiliad manwl o'r 1,232 o ymatebion a gasglwyd drwy yr arolwg Sgyrsiau Cymunedol.

Mae'n ystyried yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am eu cymunedau, yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r materion y maent yn credu bod angen rhoi sylw iddynt. Mae'n darparu sylfaen dystiolaeth sylweddol i unrhyw un sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, buddsoddi a datblygu cymunedol ledled Powys.

**Darllenwch y dadansoddiad llawn o'r arolwg yma:**
[pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/](pavo.org.uk/cy/news/community-conversations-what-you-told-us/)

**3: Cydnabyddiaethau**
Diolch o galon i bawb a helpodd i wneud Sgyrsiau Cymunedol yn bosibl.

Roedd y prosiect hwn yn ymdrech ar y cyd a oedd yn cynnwys holl staff ac ymddiriedolwyr PAVO, mudiadau cymunedol, gwirfoddolwyr, partneriaid, a'r bobl a rannodd eu profiadau a'u syniadau.

Diolch yn arbennig i Barry M. Farrell, Seicolegydd Sefydliadol, a roddodd o'i amser yn wirfoddol i ddadansoddi arolwg Sgyrsiau Cymunedol.

Yn anad dim, diolch i bawb a gwblhaodd yr arolwg, a fynychodd Sgyrsiau Cymunedol neu grŵp ffocws, a wirfoddolodd eu hamser, a rannodd eu profiad, neu a helpodd i gyflawni un o'r prosiectau cymunedol.

**Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch, neu unrhyw un o'r adroddiadau ychwanegol a grybwyllir ynddo, mewn fformat arall, megis copi caled neu brint bras, neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

- **E-bost**: info@pavo.org.uk
- **Ffôn**: 01597 822 191